# Cynllun Strategol Gofalwyr Gorllewin Cymru 2025-2030

## Fersiwn hawdd ei deall

**Beth yw strategaeth?**
Cynllun strategol yw'r hyn sydd angen ei wneud.
A sut rydyn ni'n gwneud i hyn ddigwydd.

## Cynnwys


Y cynllun strategol hon

Pwy sy'n Ofalwr di-dâl? Tudalen 3

Pam mae'r cynllun strategol hon yn bwysig? Tudalen 4

Y Dyfodol Tudalen 6

Gweithio gyda'n gilydd Tudalen 7

Ein Hegwyddorion Tudalen 9

Llais Gofalwyr Tudalen 9

Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud Tudalen 11

Ein Blaenoriaethau Tudalen 12

Blaenoriaeth 1: Tudalen 14

- Pam y mae hyn yn bwysig?
- Beth yw'r darlun yng Ngorllewin Cymru
- Cynllun Gweithredu
- Beth rydyn ni'n gobeithio bydd yn digwydd

Blaenoriaeth 2: Tudalen 19



- Pam y mae hyn yn bwysig?
- Beth yw'r darlun yng Ngorllewin Cymru
- Cynllun Gweithredu
- Beth rydyn ni'n gobeithio bydd yn digwydd

Gwirio sut mae'r cynllun strategol yn gweithio Tudalen 25

Beth nesaf? Tudalen 27

Cwestiynau ? Tudalen 28

## Y cynllun strategol hon

| | |
|---|---|
|  | Mae'r **Cynllun Strategol Gofalwyr** yn dweud beth sydd angen i ni ei wneud i wneud Gorllewin Cymru yn well i ofalwyr. |
|  | Mae Gorllewin Cymru yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. |

## Pwy sy'n ofalwr di-dâl?

| | |
|---|---|
|  | Mae Gofalwr di-dâl yn rhoi cefnogaeth i aelodau o'r teulu neu ffrindiau a fyddai'n ei chael hi'n anodd ymdopi heb eu help. |
|  | Pobl sy'n sâl, yn hŷn, yn anabl neu sydd â heriau iechyd meddwl neu broblemau gyda diod neu gyffuriau. |

| | |
|---|---|
|  | Mae llawer o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn ofalwyr. |
|  | Mae Gofalwyr Di-dâl yn gwneud llawer o bethau. Er enghraifft, helpu gyda thasgau ymarferol, cymorth emosiynol a gofal personol. |

**Pam mae'r cynllun strategol hon yn bwysig?**

| | |
|---|---|
|  | Mae'r cynllun strategol hon ar gyfer **yr holl** Ofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Cymru |
|  | Mae'r rhan fwyaf o bobl yn Ofalwyr ar ryw adeg. |


| | |
|---|---|
|  | Gall gofalu fod yn rhywbeth da i'w wneud. |
|  | Ond gall fod yn anodd iawn. |

**Dyma rai ffeithiau am Ofalwyr di-dâl.**

Yng Nghymru mae tua 311,000 o Ofalwyr di-dâl o bob oed yn darparu gofal, sy'n werth tua £10 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn.



Bydd **3 o bob 5** o bobl yng Nghymru yn Ofalwyr ar ryw adeg yn eu bywydau. Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Gorffennaf, 2020.




Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.





Mae tua 8,200 o ofalwyr yng Nghymru rhwng 5 ac 17 oed. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.






Mae 10.5% o'r boblogaeth yng Ngorllewin Cymru yn darparu gofal di-dâl (40,535).



Mae 51% o bobl dros 65 oed yng Ngorllewin Cymru yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos.

## Y dyfodol

| | |
|---|---|
|  | Bydd nifer y bobl hŷn yn tyfu traean rhwng 2021 a 2031. |
|  | A bydd nifer y bobl o oedran gweithio yn gostwng. |
|  | Yn aml bydd gan bobl hŷn lawer o broblemau iechyd.<br>Ac mae angen mwy o gymorth arnynt. |

## Gweithio gyda'n gilydd

| | |
|---|---|
|  | Mae yna lawer o gyfreithiau yng Nghymru sy'n helpu Gofalwyr ac yn dangos pa mor bwysig ydyn nhw.<br>Er enghraifft:<br><br>*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.<br><br>*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*<br><br>*Deddf Absenoldeb i Ofalwyr 2024*. |

| | |
|---|---|
|  | Er mwyn gweld beth sydd ei angen, fe wnaethon ni siarad â llawer o bobl. |
|  | Ac edrych ar lawer o gynlluniau eraill. |
|  | Mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd. |

| | |
|---|---|
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru<br>West Wales Regional Partnership Board | Bydd **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru** yn arwain ar hyn. |
| **BPRh** | Byddwn yn galw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn **BPRh.** |
|   | Gallwch ddod o hyd i'r Bwrdd drwy fynd i [wwrpb.org.uk/](wwrpb.org.uk/) |
| **Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru** | Sefydlodd y **BPRh Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru** i wneud pethau'n well i ofalwyr ac i greu'r Cynllun Strategol Gofalwyr. |

Mae gennym dair **egwyddor** bwysig.

**Beth yw egwyddorion?**

Mae **egwyddorion** yn werthoedd sy'n sail i bopeth y mae rhywun yn ei wneud.

**Ein Hegwyddorion**

- **Cydweithio**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod gwahanol grwpiau a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd.

- **Gwybodaeth dan arweiniad gofalwyr**

Mae hyn yn golygu bod lleisiau gofalwyr di-dâl yn ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

- **Arfer adfyfyriol**


Mae hyn yn golygu dysgu, newid a gwella'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

## Llais Gofalwyr

| | |
|---|---|
|  | Fe wnaethom ni wrando ar ofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Cymru i ddeall beth sydd bwysicaf iddyn nhw. |

| | |
|---|---|
|  | Fe wnaethom hefyd wrando ar bobl sy'n cefnogi Gofalwyr di-dâl. |
|  | Diolch i bawb a fuodd yn ein helpu |

Mae'r hyn a ddywedwyd ganddynt wedi helpu i lunio'r **cynllun strategol** hon.



**Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud**

| | |
|---|---|
|  | Rydyn ni am i Orllewin Cymru fod yn lleoliad ble mae Gofalwyr di-dâl yn cael eu gweld, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi am yr hyn maen nhw'n ei wneud. |
|  | Mae'r **Cynllun Strategol** Gofalwyr yn addewid gan y BPRh i wella bywydau Gofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Cymru. |
|  | Trwy sicrhau eu bod yn cael yr hyn maen nhw'n ei haeddu a'r hyn sydd ei angen arnynt. |

| | |
|---|---|
|  | Mae gan y **cynllun strategol** 2 brif **flaenoriaeth.** |

**Beth yw'r blaenoriaethau?**

**Blaenoriaethau** yw'r pethau pwysicaf i'w gwneud

## Ein blaenoriaethau

- **Blaenoriaeth 1**: Mae Gofalwyr yn weladwy ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- **Blaenoriaeth 2**: Mae Gofalwyr yn cael eu cefnogi

| | |
|---|---|
|  | Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio ein gwaith dros y pum mlynedd nesaf. |

| | |
|---|---|
|  | Bydd **cynlluniau gweithredu** bob blwyddyn. |
| **Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru** | Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan **Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru** |

**Cynllun Gweithredu** yw rhestr o bethau i'w gwneud.

Yn yr adran nesaf gallwch weld:

- Pam mae pob **blaenoriaeth** yn bwysig
- Sut brofiad yw hi i ofalwyr nawr
- Y **Cynllun Gweithredu**
- Beth rydyn ni'n gobeithio ei weld

## Blaenoriaeth 1: Mae Gofalwyr yn weladwy ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

## Pam y mae hyn yn bwysig?

| | |
|---|---|
|  | Rydyn ni angen darganfod pwy sy'n ofalwyr di-dâl<br>A'u helpu i wybod eu bod yn Ofalwyr. |
|  | Er mwyn iddynt gael yr help a'r gefnogaeth gywir. |

| | |
|---|---|
|  | Ac edrych ar ôl eu hunain. |
|  | Mae Gofalwyr Cymru yn credu bod bron i 200,000 o "ofalwyr cudd" yng Nghymru. |
|  | Mae hyn meddwl pobl sy'n gofalu am berthynas neu ffrind, ond nid ydynt sylweddoli eu bod yn "Ofalwr”. |
|  | Felly dydyn nhw ddim yn cael yr help maen nhw'n ei haeddu. |
|  | Yn aml nid yw ysgolion a cholegau yn gwybod pan mae plant yn ofalwyr ifanc. |

| | |
|---|---|
|  | Felly nid ydynt yn gallu eu helpu pan maen nhw dan straen neu'n flinedig. |
|  | Yn aml nid yw'r cyhoedd yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae Gofalwyr di-dâl yn ei wneud. |

**Beth yw'r darlun yng Ngorllewin Cymru?**

Yng Ngorllewin Cymru, roedd ein gwaith gyda phobl wedi dangos y canlynol:




Helped to be identified as a carer?

**44.7%**

they were helped to be identified as a carer in the initial survey.

Only **45** out of 111 people asked had a carers ID/ carers emergency card.




**68%**

had not had a 'what matters to me conversation'.



**23.4%**

of respondents make use of Health Technology.



## What did people say?

**What more can be done to help identify carers? Carers said:**


- Information that is visible and accessible
- Increased outreach
- Community engagement
- Information dissemination

## Dyma'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Blaenoriaeth 1

Making Caring Visible

| Beth? | Sut? |
| --- | --- |
| **Dathlu a hyrwyddo gwerth gofalwyr di-dâl** | • Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd am Ofalwyr.<br>• Cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol am Ofalwyr.<br>• Siarad am Gardiau Gofalwyr Di-dâl.<br>• Helpu pobl i ddod i wybod am wefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru.<br>• Rhoi gwybodaeth am ofalwyr mewn lleoedd fel llyfrgelloedd, canolfannau cyswllt a meddygfeydd teulu. |
| **Helpu sefydliadau i wybod mwy am Ofalwyr** | • Siarad am gynlluniau fel 'Buddsoddwyr mewn Gofalwyr' i helpu sefydliadau i wybod pwy sy'n Ofalwyr a pha gymorth sydd ar gael.<br>• Helpu cyflogwyr lleol i weld a chefnogi staff sy'n Ofalwyr.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau Gofalwyr yn y gwaith. |
| **Hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr** | • Cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr di-dâl ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr. |

## Beth rydyn ni'n gobeithio fydd yn digwydd

| | |
| --- | --- |
|  | Bod gofalwyr di-dâl yn gwybod ble i gael y cymorth a'r wybodaeth sy'n bwysig iddynt. |
|  | Bod gofalwyr di-dâl yn cael yr un wybodaeth a chyngor ar draws Gorllewin Cymru. |
|  | Bod mwy o ofalwyr di-dâl yn defnyddio gwasanaethau cymorth cynnar. |
|  | Bod staff a gwirfoddolwyr yn teimlo'n hapus i gael sgwrs gyda gofalwyr di-dâl a dweud wrthynt am wybodaeth, cyngor a chymorth. |
|  | Bod gan sefydliadau bolisïau gofalwyr di-dâl ar gyfer staff sy'n eu cefnogi i gydbwyso gwaith a gofal. |
| IiC Buddsoddwyr mewn Gofalwyr Investors in Carers | Bod mwy o sefydliadau yn cyflawni Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. |

## Blaenoriaeth 2:  Mae Gofalwyr yn cael eu cefnogi



## Pam y mae hyn yn bwysig?

| | |
|---|---|
|  | Mae gofalu yn rhan bwysig o fywyd. |
|  | Mae gofalwyr di-dâl yn aml yn chwarae rhan fawr yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd. |
|  | Ond mae gofalwyr di-dâl yn aml yn rhoi anghenion pobl eraill o flaen anghenion eu hunain.<br>Gall hyn fod yn beth gwael iddyn nhw. |

| | |
|---|---|
|  | Mae'r pethau mae Gofalwyr yn ei wneud yn gallu newid<br>Felly mae **asesiadau** yn bwysig. |


**Asesiad** yw gwirio beth mae Gofalwyr yn ei wneud. Ac os ydyn nhw'n cael yr help sydd ei angen arnynt.

| | |
|---|---|
|  | I wneud yn siŵr bod Gofalwyr yn cael yr help cywir. |
|  | Mae llawer o Ofalwyr yn gweithio hefyd. |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru<br>West Wales Regional Partnership Board | Felly mae'n rhaid i'r sefydliadau sy'n rhan o'r **BPRh** ofalu am eu staff sy'n ofalwyr. |
|  | Yn aml nid yw Gofalwyr Ifanc yn gwneud mor dda yn yr ysgol.<br>Neu hyd yn oed yn gadael addysg. |

| | |
|---|---|
|  | Ac mae'n anodd iawn yng Ngorllewin Cymru. Oherwydd bod gan ein cymunedau gwledig llai o drafnidiaeth a gwasanaethau. |

## Beth yw'r darlun yng Ngorllewin Cymru?

Yng Ngorllewin Cymru, roedd ein gwaith gyda phobl wedi dangos y canlynol:




## Dyma'r cynllun ar gyfer Blaenoriaeth 2



| Beth? | Sut? |
|---|---|
| **Sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir** | • Gosod gwybodaeth mewn llawer o lefydd gan gynnwys gwefannau, posteri a thaflenni.<br>• Helpu Gofalwyr i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt o un lle yn unig.<br>• Bydd pobl fel nyrsys, fferyllwyr, meddygon teulu, staff gofal cymdeithasol a staff y Trydydd Sector yn gwybod ble i helpu pobl i fynd i gael help a gwybodaeth. |
| **Gwneud yn siŵr bod Gofalwyr di-dâl yn cael cymorth pwy bynnag maen nhw'n cysylltu â nhw** | • Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud, darparu a gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol a rhanbarthol.<br>• Helpu staff i deimlo'n hyderus i gyfeirio gofalwyr di-dâl at |

| | |
|---|---|
| | wasanaethau sy'n gallu eu cefnogi. |
| **Cynnig amrywiaeth o wasanaethau i helpu gofalwyr di-dâl.** | • Mae gan ofalwyr di-dâl daflen 'beth sy'n bwysig i mi' ac Asesiad os oes angen.<br>• Bydd hyn ar gael yn yr iaith maen nhw am ei defnyddio.<br>• Gall Gofalwyr gael cymorth i ennill sgiliau, chwilio am waith, neu aros mewn gwaith.<br>• Rhoi seibiannau byr i ofalwyr (os ydynt yn gymwys ac os oes cyllid).<br>• Hyrwyddo gwybodaeth am Eiriolaeth a gwasanaethau cyngor costau byw.<br>• Creu lleoedd lle gall Gofalwyr gwrdd a helpu ei gilydd. |

## Beth rydyn ni'n gobeithio fydd yn digwydd

| | |
|---|---|
|  | Bod Gofalwyr di-dâl yn cael gwybodaeth mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw |

| | |
|---|---|
|  | Bod Gofalwyr di-dâl yn teimlo'n hyderus ac wedi'u cefnogi wrth weld pa gefnogaeth sydd yna. |
|  | Bod gofalwyr di-dâl yn gallu dweud beth sydd ei angen arnynt i barhau yn i ddarparu gofal a gwybod sut i greu cynllun gweithredu brys. |
|  | Bod gofalwyr di-dâl yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n cefnogi eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. |
|  | Bod llefydd lle gall Gofalwyr siarad a rhannu ar draws Gorllewin Cymru. |
|  | Bod gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth, felly nid oes rhaid i ofalwyr di-dâl barhau i ddweud yr un peth. |

## Gwirio sut mae'r Cynllun Strategol yn gweithio

Mae'r **Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru** eisiau clywed am sut mae ein gweithredoedd yn gwneud pethau'n well i ofalwyr di-dâl.

I wneud hyn byddwn yn:

| | |
|---|---|
|  | Gofyn i Ofalwyr di-dâl sut mae'r cynllun gweithredu yn gweithio. |
|  | Cynnal sesiynau gyda chynrychiolwyr Gofalwyr di-dâl i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio'r adborth hwnnw. |
|   | Gwneud arolygon Gofalwyr di-dâl. |
|  | Casglu storïau gan Ofalwyr di-dâl er mwyn gweld a deall y newidiadau mwyaf arwyddocaol. |

**Bob blwyddyn byddwn yn gweld faint yn fwy sydd o'r canlynol:**



- Oedolion sy’n ofalwyr di-dâl sy'n cael eu cefnogi drwy Wasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr.
- Gofalwyr Ifanc sy'n cael eu cefnogi drwy Wasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr
- Lleoliadau ledled Gorllewin Cymru sy’n cymryd rhan yn y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.
- Gofalwyr Di-dâl sy'n cael eu cefnogi gan Wasanaethau Cymorth Rhyddhau Gofalwyr.
- Ymweliadau â’r wefan ranbarthol i Ofalwyr rhanbarthol.
- Oedolion sy'n ofalwyr di-dâl yn dweud bob blwyddyn bod y cymorth wedi helpu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.
- Oedolion ifanc sy'n ofalwyr di-dâl yn dweud bob blwyddyn bod y cymorth wedi helpu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol

- Gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth sy'n diwallu eu hanghenion fel gofalwyr.

**Beth nesaf**




Mae'r cynllun strategol hon yn dangos ein haddewid i wella bywydau Gofalwyr di-dâl ledled Gorllewin Cymru.

Rydyn ni'n gwybod y bydd mwy o Ofalwyr di-dâl. Felly mae'r cynllun hwn yn edrych ar anghenion y dyfodol hefyd.

Bydd ein Cynlluniau Gweithredu bob blwyddyn yn newid wrth i ni weld anghenion newydd y mae Gofalwyr yn dweud wrthym amdanynt.


Bydd ein Cynlluniau Gweithredu bob blwyddyn yn newid wrth i **flaenoriaethau** cenedlaethol newid.

Byddwn yn ysgrifennu adroddiadau bob blwyddyn. Gallwch gael y rhain ar wefan **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.**

Bydd y **Bwrdd** yn gwirio'r gwaith, ac yn gwneud yn siŵr bod digon o arian i gefnogi Gofalwyr a'i bod yn cael ei ystyried yn bwysig.

Bydd y cynghorau yng Ngorllewin Cymru a'r Bwrdd Iechyd hefyd yn edrych ar ba mor dda mae'r **cynllun strategol** yn gwneud.

Gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau bod Gofalwyr yn cael eu gweld, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

| | |
|---|---|
| ? | **Cwestiynau?** |
|   | Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth yma<br><br>https://wwrpb.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/ |